CEWC CYMRU

COUNCIL FOR EDUCATION IN WORLD CITIZENSHIP - CYMRU

# NEWSLETTER 06

SPRING

Active citizenship for Wales and the world

## WALES AWAITS THE WORLD'S DEBATERS



Registration has opened for the 2006 World Schools Debating Championships in Wales from 4 to 14 July. 250 debaters, coaches and adjudicators from thirty countries will take part. Secondary schools in Newport, Cardiff, Carmarthenshire and Torfaen will host many of the debates; get in touch if your school is in one of those areas and wishes to get involved.

Wales's debating team is being put through its paces by coach Helen Jarman, in preparation for its important role on home soil. The team comprises Geraint Denison and Lucy Rees of Whitchurch High School, Cardiff (winners of the 2005 Julian Hodge Bank Wales Schools Debating Championships), Beth Greaves (Builth Wells High School), Ffion Rolph (Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr, Cardiff) and Joe Edwards (Caerleon Comprehensive School).

CEWC-Cymru's parent body, the Welsh Centre for International Affairs, has appointed David Penny (pictured) as Administrator for the event. David debated for Wales in 1999 and has judged at two subsequent World Championships. If you would like further information, or your students wish to attend a debate, contact him at **davidpenny@wcia.org.uk**.

*We thank Newport, Cardiff, Carmarthenshire and Torfaen Councils for their support in hosting the World Championships. A list of sponsors and full details of the event can be found at* ***www.wales2006.com****.*

## YOUR STUDENTS COULD BE NEXT!

As part of its support for the World Championships, the Welsh Assembly Government is helping CEWC-Cymru provide free debating workshops for schools and colleges. These can be arranged for various age groups and with any number of students. You may wish to book an introductory session for young students who have never debated, or an advanced workshop to polish the skills of experienced speakers.

CEWC-Cymru will also provide teaching materials on debating, free of charge, to all secondary schools and colleges in Wales. To book your workshop, or to ensure you receive the materials, e-mail **davidpenny@wcia.org.uk**.

.

# PROJECT UPDATES

Kate Wolstenholme is running two projects for CEWC-Cymru. If you would like to be involved, or if you are interested in the projects' outcomes, contact her at **katewolstenholme@wcia.org.uk**.

## *SKILLS FOR DEMOCRACY*

Funded by the Electoral Commission, this project aims to improve the skills needed to take part in democracy. 150 young people have completed a questionnaire on this subject, and the results are being used to develop a series of six skills-based lessons, available this summer. These will include teaching ideas on choosing a democratic candidate, devolution, informal democracy, and the role of the media and voluntary sector.



## *INC*LUSION

In this project, Kate is using film and animation techniques to explore citizenship issues with disadvantaged young people. A further grant from the Equitable Charitable Trust will enable us to produce original, Wales-based video stimulus material. A successful 'storyboarding' day took place in February with *Hollyoaks* writer Lucy Gough, students from Greenfield Special School (Merthyr Tydfil) and Bryngwyn School (Llanelli), and South Wales Police officers. The story created at that event will be developed into a film by the North East Wales Institute of Higher Education, Wrexham, and used as the basis for writing new lesson plans. Meanwhile, further sessions are being carried out with Youth Offending Teams, Special Schools and Pupil Referral Units across Wales, using the existing video *Who Killed Simone Valentine?*. Animations created by students at these sessions will be available on our website later this year.

## *WEBSITE*

As part of both projects, we will develop a young people's section of our website **www.cewc-cymru.org.uk**. Kate is seeking to set up young people's consultation groups for north and south Wales to ensure that this section meets their needs. An initial workshop with group members will be followed by consultation via e-mail.

## LEARNING ABOUT THE UNITED NATIONS



Sioned Bevan (pictured) has been appointed Development Officer of the Welsh Centre for International Affairs. A former secondary school teacher, Sioned also organises the activities of the United Nations Association Wales. If you wish to receive a classroom session on the work of the UN, or would like to organise a simulation UN meeting for a year group or particular class, contact her at **sionedbevan@wcia.org.uk**.

# NEW RESOURCES

## *CITAWARE*

Ever wished you could make the European Union interesting for students? CEWC-Cymru's new *Citaware* resource is designed for just that purpose. It includes a teachers' introduction and four activity sheets to help 14-18 year olds understand different aspects of the EU: Human Rights, Sustainable Development, International Co-operation, and Citizenship and Democracy. *Citaware* will be sent free to all Welsh secondary schools and colleges early in the Summer term. A sample is available in the central poster inside this newsletter, which contains activities from one of those sheets.

## *THINKING CITIZENS: HOW TO MAKE PSE PHILOSOPHICAL*

This Key Stage 2 pack introduces the Philosophy for Children (P4C) method of developing thinking skills, and links P4C to the PSE Framework. *Thinking Citizens* includes stimuli for philosophical discussion, tried and tested in primary schools. The photocopied pack is available to member schools for £6, or to non-members at £8. E-mail **rhianharries@wcia.org.uk** to order your copy.

# DIFFERENT FAITHS, ONE WORLD



There has been much discussion in 2006 about how people of different religions can live together peacefully. CEWC-Cymru's contribution to this area is our **One World Conference**, which this year took place in January at the Beaufort Theatre, Ebbw Vale. Fifty pupils from six primary schools learnt about different religions from Alan Schwartz (Jewish Representative Council of Wales), Sheikh Yaquob (Muslim Council of Wales), Christine Abbas and Viv Bartlett (Baha'i Council for Wales), Pam Evans (Peace Mala) and Nigel Anthony (Spiritual Unity Network). With help from The Artery and Gwent Theatre, they also made artistic representations of prayers and pledges, and took part in drama activities about inter-cultural communication.

# WORKSHOPS

If your school or college is a member of CEWC-Cymru, remember you are entitled to **free classroom workshops** relating to PSE, citizenship education or the Welsh Baccalaureate. Schools visited recently include Ysgol Tre-Gib, Llandeilo (UNICEF and children's rights), Bridgend and Pencoed Colleges (global citizenship), Llanfyllin High School (sustainable development), Bedwas High School, Caerphilly (fair trade), and Hawarden High School (debating). To arrange a workshop, e-mail **martinpollard@wcia.org.uk**; or, if you wish to join CEWC-Cymru to take advantage of this service, e-mail **rhianharries@wcia.org.uk**.

Design elfen.co.uk

CEWC CYMRU
CYNGOR ADDYSG MEWN DINASYDDIAETH BYD - CYMRU

# CYLCHLYTHYR 06
GWANWYN

Dinasyddiaeth weithredol i Gymru ac i'r byd

# CYMRU'N DISGWYL DADLEUWYR BYD



Bellach mae hi'n bosibl cofrestru ar gyfer Pencampwriaethau Dadlau Ysgolion y Byd 2006 a gynhelir yng Nghymru rhwng Gorffennaf 4ydd a'r 14eg. Bydd 250 o ddadleuwyr, hyfforddwyr a beirniaid o ddeg gwlad ar hugain yn cymryd rhan. Bydd ysgolion uwchradd yng Nghasnewydd, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin a Thor-faen yn croesawu llawer o'r dadleuon hyn; cysylltwch â ni os yw eich ysgol chi yn un o'r ardaloedd hyn ac yn dymuno cymryd rhan.

Mae Helen Jarman wrthi'n hyfforddi tîm dadlau Cymru, yn barod ar gyfer y rhan bwysig sydd ganddo i'w chwarae yn ei gynefin. Aelodau'r tîm yw Geraint Denison a Lucy Rees o Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd, Caerdydd (enillwyr Pencampwriaethau Dadlau Ysgolion Cymru Banc Julian Hodge 2005), Beth Greaves (Ysgol Uwchradd Llanfair ym Muallt), Ffion Rolph (Ysgol Gyfun Gymraeg Plas-mawr, Caerdydd) a Joe Edwards (Ysgol Gyfun Caerllion).

Mae mam gorff CEWC-Cymru, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, wedi penodi David Penny (gweler y llun) yn Weinyddwr ar y digwyddiad. Bu David yn dadlau dros Gymru ym 1999 a bu'n beirniadu mewn dwy Bencampwriaeth Byd ers hynny. Os ydych am dderbyn rhagor o wybodaeth, neu os yw eich disgyblion/myfyrwyr am ddod i un o'r dadleuon, cysylltwch ag ef ar **davidpenny@wcia.org.uk**.

*Diolchwn i Gynghorau Casnewydd, Caerdydd, Sir Gaerfyrddin a Thor-faen am eu cefnogaeth wrth groesawu Pencampwriaethau'r Byd. Mae rhestr o'r noddwyr a manylion llawn am y digwyddiad i'w gweld yn* ***www.wales2006.com****.*

## EICH DISGYBLION CHI NESAF!

Yn rhan o'i gefnogaeth i Bencampwriaethau'r Byd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynorthwyo CEWC-Cymru i gynnig gweithdai dadlau am ddim i ysgolion a cholegau. Mae modd trefnu'r rhain ar gyfer gwahanol grwpiau oedran a gydag unrhyw nifer o ddisgyblion. Efallai y carech archebu sesiwn ragarweiniol ar gyfer disgyblion ifainc sydd heb ddadlau erioed o'r blaen, neu weithdy uwch i loywi sgiliau siaradwyr profiadol.

Bydd CEWC-Cymru hefyd yn darparu deunyddiau dysgu ar ddadlau, yn rhad ac am ddim, i'r holl ysgolion uwchradd a cholegau yng Nghymru. I archebu eich gweithdy, neu i sicrhau y byddwch yn derbyn y deunyddiau, e-bostiwch **davidpenny@wcia.org.uk**.

# PROSIECTAU – Y NEWYDDION DIWEDDARAF

Mae Kate Wolstenholme yn rhedeg dau brosiect ar ran CEWC-Cymru. Os hoffech gymryd rhan, neu os oes gennych ddiddordeb yn nghanlyniadau'r prosiectau, cysylltwch â hi ar **katewolstenholme@wcia.org.uk**.

## *SGILIAU AR GYFER DEMOCRATIAETH*

Amcan y prosiect hwn, a noddir gan y Comisiwn Etholiadol, yw gwella'r sgiliau sy'n rhaid eu cael er mwyn cymryd rhan mewn democratiaeth. Mae 150 o bobl ifainc wedi llenwi holiadur ar y pwnc, a defnyddir y canlyniadau i ddatblygu cyfres o chwe gwers ar sail sgiliau, a fydd ar gael yn ystod yr haf sydd i ddod. Bydd y rhain yn cynnwys syniadau dysgu ar ddewis ymgeisydd democrataidd, datganoli, democratiaeth anffurfiol, a swyddogaeth y cyfryngau a'r sector wirfoddol.



## *INC*LUSION

Yn y prosiect hwn, mae Kate yn defnyddio technegau ffilm ac animeiddio i archwilio materion sy'n ymwneud â dinasyddiaeth gyda phobl ifainc difreintiedig. Bydd grant pellach gan Ymddiriedolaeth Elusennol Equitable yn ein galluogi ni i gynhyrchu deunydd sbardunol gwreiddiol, sy'n seiliedig ar Gymru. Cafwyd diwrnod 'storifyrddio' llwyddiannus ym mis Chwefror gyda Lucy Gough, un o sgriptwyr *Hollyoaks*, disgyblion o Ysgol Arbennig Greenfields (Merthyr Tudful) ac Ysgol Bryngwyn (Llanelli) a swyddogion o Heddlu De Cymru. Datblygwyd y stori a grëwyd yn y digwyddiad hwnnw yn ffilm gan Athrofa Addysg Uwch Gogledd-ddwyrain Cymru, Wrecsam, a'i defnyddio yn sail ar gyfer cynlluniau gwersi newydd. Yn y cyfamser, cynhelir sesiynau pellach gyda Thimau Troseddwyr Ifainc, Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion trwy Gymru, gan ddefnyddio'r fideo presennol *Who Killed Simone Valentine?*. Bydd gwaith animeiddio a grëir gan y disgyblion a'r myfyrwyr yn y sesiynau hyn i'w gweld ar ein gwefan yn ddiweddarach eleni.

## *Y WEFAN*

Yn rhan o'r ddau brosiect, byddwn yn datblygu adran ar gyfer pobl ifainc ar ein gwefan, **www.cewc-cymru.org.uk**. Mae Kate wrthi yn ceisio sefydlu grwpiau ymgynghorol i bobl ifainc ar gyfer gogledd a de Cymru i sicrhau y bydd yr adran hon yn cwrdd â'u gofynion. Wedi gweithdy cychwynnol gydag aelodau'r grwpiau, ymgynghorir trwy'r e-bost.

## DYSGU AM Y CENHEDLOEDD UNEDIG



Penodwyd Sioned Bevan (gweler y llun) yn Swyddog Datblygu Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru. Bydd Sioned, sydd yn gyn-athrawes ysgol uwchradd, hefyd yn trefnu gweithgareddau Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig Cymru. Os carech dderbyn sesiwn ystafell ddosbarth ar waith y CU, neu drefnu efelychiad o un o gyfarfodydd y CU ar gyfer grŵp blwyddyn neu ddosbarth arbennig, cysylltwch â hi ar **sionedbevan@wcia.org.uk**.

# ADNODDAU NEWYDD

## *CITAWARE*

Ydych chi'n awyddus i ddod â'r Undeb Ewropeaidd yn fyw i'ch disgyblion? Nod adnodd newydd CEWC-Cymru, *Citaware*, yw ateb yr union ofyniad hwn. Mae'n cynnwys cyflwyniad i athrawon a phedair taflen gweithgaredd i helpu disgyblion rhwng 14-18 oed i ddeall gwahanol agweddau ar yr UE: Hawliau Dynol, Datblygiad Cynaliadwy, Cydweithrediad Rhyngwladol, a Dinasyddiaeth a Democratiaeth. Anfonir *Citaware* yn rhad ac am ddim i bob ysgol uwchradd a choleg yng Nghymru yn gynnar yn nhymor yr Haf. Mae sampl i'w weld yn y poster yng nghanol y cylchlythyr hwn, sydd yn cynnwys gweithgareddau o un o'r taflenni hynny.

## *DINASYDDION SY'N MEDDWL: SUT I DROI ABCH YN ATHRONYDDOL*

Mae'r pecyn Cyfnod Allweddol 2 hwn yn cyflwyno'r dull Athroniaeth i Blant (P4C) o ddatblygu sgiliau meddwl, ac yn cysylltu P4C â'r Fframwaith ABCh. Mae *Dinasyddion sy'n Meddwl* yn cynnwys deunydd i sbarduno trafodaeth athronyddol, a brofwyd mewn ysgolion cynradd. Mae llungopi o'r pecyn ar gael i ysgolion sy'n aelodau o CEWC-Cymru am £6, neu i rai nad ydynt yn aelodau am £8. E-bostiwch **rhianharries@wcia.org.uk** i archebu eich copi.

# AMRYW GREFYDDAU, UN BYD



Bu llawer o drafodaeth yn 2006 ynglŷn â sut y gall pobl o wahanol grefyddau gyd-fyw mewn heddwch. Cyfraniad CEWC-Cymru i'r maes hwn yw ein **Cynhadledd Un Byd** a gynhaliwyd eleni yn Theatr Beaufort, Glynebwy ym mis Ionawr. Bu hanner cant o ddisgyblion o chwe ysgol gynradd yn dysgu am wahanol grefyddau gan Alan Schwartz (Cyngor Cynrychioladol Iddewon Cymru), Sheikh Yaquob (Cyngor Mwslemaidd Cymru), Christine Abbas a Viv Bartlett (Y Cyngor Baha'i dros Gymru), Pam Evans (Mala Heddwch) a Nigel Anthony (Y Rhwydwaith Undeb Ysbrydol). Gyda chymorth gan The Artery a Theatr Gwent, buont hefyd yn gwneud gwaith celf ar thema gweddïau ac addewidion, a chymryd rhan mewn gweithgareddau drama am gyfathrebu rhyng-ddiwylliannol.

# GWEITHDAI

Os yw eich ysgol neu goleg yn aelod o CEWC-Cymru, cofiwch bod gennych hawl i **weithdai yn yr ystafell ddosbarth yn rhad ac am ddim** mewn perthynas ag ABCh, addysg ddinasyddiaeth neu'r Bagloriaeth Cymreig. Ymhlith yr ysgolion y buom yn ymweld â nhw'n ddiweddar roedd Ysgol Tre-gib, Llandeilo (UNICEF a hawliau'r plentyn), Colegau Pen-y-bont ar Ogwr a Phen-coed (dinasyddiaeth byd), Ysgol Uwchradd Llanfyllin (datblygu cynaliadwy), Ysgol Uwchradd Bedwas, Caerffili (masnach deg), ac Ysgol Uwchradd Penarlâg (dadlau). Os ydych am drefnu gweithdy, e-bostiwch **martinpollard@wcia.org.uk**; neu, os ydych am ymuno â CEWC-Cymru i fanteisio ar y gwasanaeth hwn, e-bostiwch **rhianharries@wcia.org.uk**.

www.cewc-cymru.org.uk
FFÔN (029) 2022 8549 FFACS (029) 2064 0333 E-BOST cewc@wcia.org.uk Elusen gof. rhif 1048759
CEWC-CYMRU Y DEML HEDDWCH • PARC CATHAYS • CAERDYDD • CF10 3AP

Dylunio elfen.co.duk